OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 999

# Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad-cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000.

## RHAN V

*CYFRIFON*

**Paratoi cyfrifon**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd y ddyletswydd yn adran 98(2B)(c) o Ddeddf 1977(**1**) yn gymwys i gyn-aelodau o bractis deiliad-cronfa a oedd yn bractis deiliad-cronfa gweddilliol (gan gynnwys y cyn-aelodau o bractis felly a roes y gorau i'w cydnabyddiaeth yn unol â rheoliad 11 o Reoliadau 1996(**2**)) ynglŷn â'r flwyddyn ariannol 1999 – 2000 fel y mae'n gymwys i flynyddoedd ariannol eraill.

(2) Pan dynnir cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn ariannol 1999-2000, oddi wrth gyn-aelodau o bractis deiliad-cronfa yn unol â rheoliadau 13 ac 14 neu 15 ac 16 o Reoliadau 1996, cyflawnir y ddyletswydd a osodir o dan adran 98(2B)(c) o Ddeddf 1977 gan yr Awdurdod Iechyd.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), bydd adran 98(2B) o Ddeddf 1977 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na ddiddymwyd darpariaethau y deiliad-cronfa.

(4) Bydd y cyn-aelodau o bractis deiliad-cronfa a oedd yn bractis deiliad-cronfa gweddilliol yn cyflwyno cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999-2000 i'r Awdurdod Iechyd ar 13 Mai 2000 neu cyn hynny.

(**1**) Mewnosodwyd adran 98(2B)(c) o Ddeddf 1977 gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19), adran 20(2)(b), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995, adran 2(1) ac Atodlen 1, paragraff 50(c);

(**2**) Diwygiwyd rheoliad 11 gan O.S. 1999/261, rheoliad 14.